

Tyfu Cymru: Taflen Cyngor Technegol

Cyfnod Hwb i'r Bwmpen – Mehefin

Sefydlu cnwd a dyfrio

Dylai plannu pwmpenni fod wedi gorffen am eleni - boed drwy drawsblannu neu dyllu - a bydd y cnwd wedi sefydlu'n dda. Mae plannu wedi bod yn anodd eleni gyda chyfnodau sychion - rhywbeth i'w osgoi yw plannu pan mae'n boeth iawn a sych. Mae rhai tyfwyr sydd wedi drilio'n uniongyrchol wedi gweld egino darniog, yma ac acw, ble mae'r caeau wedi eu gadael i sychu. Mae hyn yn gadael gofod i blannu hwyrach yn y tymor. Os nad yw eich plannu cyntaf wedi cydio hwyrach y bydd modd drilio eto. Ar ôl i chi blannu, dyfriwch yn dda i annog tyfiant iach yn y gwreiddiau. Os ydych yn drilio, hwyrach y gallwch ddyfrio'r un pryd â'r dril neu gallwch chwistrellu dŵr dros y cnwd gyda thanc a thaflwr slyri. Yn dibynnu ar eich pridd efallai y cyrhaeddwch chi ddŵr tua 10-15cm i lawr, felly dylid dyfrio ychydig yn unig i bontio rhwng lleithder y pridd ag wyneb y tir. Bydd leithder ar wyneb y pridd hefyd o fudd i'r chwynladdwyr weithio'n iawn i gyfyngu ar y chwyn a ddaw i'r golwg ar ôl i chi fod yn plannu.



Blodeuo

Bydd blodau'n debygol o ymddangos o ddechrau Mehefin ymlaen. Mi welwch yn gyntaf ffrwydrad cynnar o flodau gwryw gyda'r rhai benyw yn dilyn tuag wythnos i bythefnos wedyn.

Llwydni Powdrog

Mae llwydni powdrog yn debygol o fod yn fygythiad o tua mis Gorffennaf ymlaen. Fe ddylech gynllunio i gael gwared ohono o'ch cnwd tan o leiaf mis Awst. Wedi hynny gallwch ei ddefnyddio i ddifa dail y cnwd ac felly'n rhoi mwy o olau haul i'r ffrwythau cael datblygu. Er ei fod yn gwbl organig, nid yw deucarboniad potasiwm ond yn effeithiol i gael gwared â phroblemau yn hytrach na gwarchod rhagddynt, felly fe ddylech ystyried triniaethau traddodiadol yn gyntaf. At ei gilydd, mae gan driniaethau addas tua 3 diwrnod neu lai o gyfnod i fedi, felly gallwch eu defnyddio'n ddiogel bryd hynny. Gall Signum fod braidd yn ddrud, ond mae Amistar, Takumi a Tallius yn werth eu hystyried - am restr lawn o ddewis cemegol gweler taflen ffeithiau Tyfu Cymru ar lwydni powdrog. Fe ddylech hefyd ddefnyddio amrywiaeth o godau FRAC i sicrhau nad oes ymwrthedd yn datblygu. Byddwch yn ofalus iawn gyda ffwngleiddiaid - mae nifer o opsiynau ar gael ar gyfer eu defnyddio ar gourgettes ond heb eu cofrestru ar gyfer pwmpenni..



Rheoli Chwyn

Wrth i'r cnwd o bwmpenni ddod yn ei flaen bydd y risg o chwyn yn parhau tan fydd mantell o ddail wedi sefydlu. Bydd Blodau'r Domen, sydd yn broblem gyffredin ym Mhrydain, yn ffynnu'n dda yn y sychder a gall fygu'r cnwd i gyd. Bydd y Ganwraidd Goesgoch a chwyn hwyr eraill yn dod yn fwyfwy o broblem wrth i'r cnwd dyfu. Mae hen wely hadu yn lle da i gael cychwyn cynnar (er mwyn cael gwared ag unrhyw chwyn ifanc, fe ddylech anelu at fedi ddwywaith ac o leiaf dair wythnos cyn plannu), a bydd chwynnogl law yn ddefnyddiol i reoli chwyn rhag iddynt sefydlu eu hunain yn rhy dda. Ond, ar raddfa fawr, gall hyn fod yn

gostus. Fe fyddai chwynnogl fecanyddol, wedi ei gosod i 15cm, yn effeithiol iawn ar gyfer plannu strwythuredig da.

Mae nifer o opsiynau cemegau ar gael. Mae Flexidor bellach ar gael drwy EAMU ond mae angen pridd llaith i weithio'n effeithiol - gellir ei ddefnyddio ar raddfa 0.5L/Ha. Gall Gamit fod yn effeithiol hefyd, ond gall arafu'r tyfiant weithiau, yn enwedig mewn tywydd oer felly peidiwch â'i ddefnyddio os oes rhew'n debygol,. Gellir ei ddefnyddio hyd at 0.25 L/Ha, ond ar dywod, lle gall fod yn effeithiol ond ei olchi o'r pridd yn hawdd, hwyrach y byddwch eisiau lleihau hynny i 0.1 - 0.15 L/Ha. Gall hyn hefyd arwain at ymylon o amgylch y cnwd os yw'r pridd yn sych. Mae Kerb Flo hefyd ar gael, i'w ddefnyddio ar tua 1.6 L/Ha, ond ar gyfer defnydd cyffredin ei leihau i tua 1.1 L/Ha ac nid yw ond yn gweithio'n dda ar wair. Os ydych yn drilio'n hwyr, gellir rhoi glyphosate cyn i'r cnwd godi. Mae manylion am rhain ar gael isod ond gorau oll fyddai i chi gael cyngor penodol gan ymgynghorydd (manylion ar gael drwy gynllun (Tyfu Cymru).



Blodau'r Domen ifanc – *Chenopodium album*

Cynnyrch	Cynhwysyn Gweithredol	Uchafswm Dogn Unigol	Uchafswm Cyfanswm Dogn	Yr Hwyrfa i'w Ddefnyddio
Gamit 36 CS EAMU 2831/15	Clomazone	0.25 L/Ha	0.25 L/Ha/Year	Cyn 2 ddeilen iawn.
Flexidor EAMU 0883/20	Isoxaben	0.5 L/Ha		Cyn 3 deilen iawn. 1 defnydd y flwyddyn ar y mwyaf.
Kerb Flo EAMU 2416/08	Propyzamide		1.875 L/Ha/Year	Cyn 2 ddeilen iawn.

Mae rheoli egin yn gallu bod yn bwysig i leihau tyfiant chwyn. Gall bagiau plastig duon fod o fudd os nad yw'n rhy ddrud o fewn gorsymiau gros y busnes, er y byddai hyn yn debygol o fod yn gyfyngedig i raddfa fechan o blannu. Gall blannu drwy Mypex hefyd weithio'n dda, ac fe all weithio'n effeithiol ar raddfa fechan. Yn ogystal, gall taenfa o wellt fod o fudd. Mae clofau yn gallu cyfoethogi'r pridd hefyd drwy ollwng nitrogen ond efallai y bydd angen i chi ddod o hyd i un sy'n tyfu'n araf i osgoi gordyfiant.

Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a'r argymhellion yn y nodiadau uchod. Dylid defnyddio pob cemegyn gwarchod cnydau yn unol â'r argymhellion ar eu labeli a dylid eu darllen a'u deall cyn cychwyn chwistrellu. Hwyrach nad yw rhai o'r chwynladdwyr a nodir uchod yn cael eu cefnogi gan argymhellion label ar gyfer eu defnyddio ar bwmpenni, ond eto'n iawn i'w defnyddio ym Mhrydain yn unol â'r Extension of Authorisation for Minor Use (EAMU) o dan 'The Revised Long Term Arrangements For Extension Of Use (2002)'. Yn yr achosion hynny, defnyddir y chwynladdwyr ar risg y defnyddiwr ac nid yw Tyfu Cymru'n derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod a achosir o'r fath ddefnydd. Mae unrhyw gyfeiriad at gymeradwyaeth ar-label a defnydd o chwynladdwyr EAMU ar gnydau pwmpenni yn gywir ar adeg eu hysgrifennu. Gall y rhain newid a gall unrhyw gymeradwyo ei dynnu'n ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio'r gymeradwyaeth cyn defnyddio'r chwynladdwr dan sylw. Os oes amheuaeth dylai'r tyfwr ofyn cyngor ymgynghorydd cymwys BASIS - mae hyn ar gael yn rhad ac am ddim i dyfwrwyr dilys drwy gynllun Tyfu Cymru. Cysylltwch os gwelwch yn dda i drefnu cyfarfod - mae cyngor dros e-bost/ffôn hefyd ar gael.